**<u>Y Pwyllgor Diwylliant CC 03-03 p3</u>**

Dyddiad: 5 Chwefror 2003

Amser: 9.00 - 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Y Mesur Cyfathrebu. Adroddiad ar ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion y Cynulliad.**

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw hysbysu'r Pwyllgor Diwylliant am ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Mesur Cyfathrebu drafft.

**Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r canlyniadau yn y meysydd y gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sylwadau arnynt.

**Y Cefndir**

3. Ym mis Rhagfyr 2000, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn, *A New Future for Communications*. Fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar y papur hwn ac fe ymatebodd gan wneud nifer o argymhellion. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd y Mesur Cyfathrebu drafft ar 7 Mai 2002 ac fe wnaeth Llywodraeth y DU gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno. Fe ymatebodd y Cynulliad yn ffurfiol i'r ymgynghoriad hwnnw yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Diwylliant a'r Cyfarfod Llawn ac ar ôl ymgynghori'n eang. Ar yr un pryd ag yr oedd Llywodraeth y DU yn ymgynghori, ffurfiwyd Cyd-bwyllgor o Dy'r Arglwyddi a Thy'r Cyffredin er mwyn craffu ar y mesur drafft. Wedi hynny, cyhoeddwyd y Mesur Cyfathrebu yn Nhy'r Cyffredin ar 20 Tachwedd 2002. Bydd yn mynd drwy Gam y Pwyllgor Sefydlog tan ganol mis Chwefror, yn mynd drwy Gam yr Adroddiad wedyn tan ddiwedd mis Chwefror/dechrau mis Mawrth a chaiff ei gyhoeddi yn Nhy'r Arglwyddi tua'r Pasg. Y disgwyl yw y bydd y Mesur wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol erbyn canol yr haf ac mae OFCOM (Office of Communications) yn paratoi ar gyfer ei lansiad tua diwedd 2003.

**Materion i'w Hystyried**

4. Roedd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Mesur drafft yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: strwythur, swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau arfaethedig OFCOM o ran sicrhau bod gan Gymru lais cryf o fewn y drefn reoleiddio newydd; cynhyrchu rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol; a Hygyrchedd. Crynhoir y camau sydd wedi'u cymryd yn y ddau faes cyntaf yn Atodiadau A a B.

5. Roedd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Mesur drafft ar fater hygyrchedd yn pwysleisio bod

amgylchedd cyfathrebu Cymru yn unigryw. O ganlyniad, roedd yn hanfodol bod nifer o faterion hygyrchedd, gan gynnwys diffodd y gwasanaeth analog, yn cael eu hystyried ar sail y gwahanol genhedloedd a rhanbarthau ar wahân. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o Gynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth y DU (Hydref 2002) yn rhestru nifer o adroddiadau ar fynediad, argaeledd a hygyrchedd a gaiff eu cyhoeddi yn ystod chwarter cyntaf 2003.

**Cydymffurfio**

Nid oes unrhyw faterion sy’n ymwneud â chydymffurfio. Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bwerau ym maes darlledu.

**Camau i’w pwyllgor pwnc eu cymryd**

Nodi'r datblygiadau.

**Person cyswllt**

Judith Scott, Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Atodiad A**

**Materion sy'n ymwneud â'r rhanbarthau a'r cenhedloedd**

| **Materion a godwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru** | **Canlyniad** |
|---|---|
| Gofynnwyd am gynrychiolaeth o Gymru ar brif fwrdd OFCOM | Mae'r Cyd-bwyllgor ar y Mesur Cyfathrebu Drafft a Llywodraeth y DU yn mynnu y byddai'n gam gwag ehangu aelodaeth y prif fwrdd at ddibenion cynrychioladol gan y gallai amharu ar ei swyddogaeth strategol. Fodd bynnag, mae maint y bwrdd wedi'i ehangu i 9, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth weithredol. |

| | |
|---|---|
| Roedd yn croesawu'r darpariaethau a oedd yn sicrhau cynrychiolaeth o Gymru ar Fwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr OFCOM ond dylid cael gwared ar y frawddeg "so far as practicable" | Y frawddeg hon wedi'i dileu o'r Mesur. |
| Cyfrifoldeb statudol ar y Cynulliad i benodi'r aelodau dynodedig ar gyfer Cymru a fydd yn gwasanaethu ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr | Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y caiff y dull o ymgynghori ar benodiadau ei nodi'n ffurfiol mewn Memorandwm Dealltwriaeth yn hytrach nag yn y Mesur.<br><br>Gan fod OFCOM yn dymuno penodi aelodau'r Bwrdd Cynnwys cyn gynted â phosibl, aed ati i benodi cyn i'r mater gael ei ddatrys/cyn llunio Memorandwm Dealltwriaeth. Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy gyfrwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar yr enwebiadau ar gyfer aelod Cymru ar Fwrdd Cynnwys Cysgodol OFCOM. |
| Mae’r Mesur yn cyfeirio at gyfrifoldebau OFCOM o ran cwsmeriaid yn unig. Dylai'r Mesur nodi'n benodol bod OFCOM yn atebol i'r cyhoedd yn gyffredinol | Roedd y Cyd-bwyllgor ar y Mesur Cyfathrebu Drafft, a Llywodraeth y DU, yn cytuno y dylid defnyddio'r term defnyddiwr yn hytrach na chwsmer wrth gyfeirio at gyfrifoldebau cyffredinol OFCOM, ac mewn mannau eraill yn y Mesur lle na chyfeirir at berthynas benodol. |
| Sefydlu Cyngor Cyfathrebu Cymru i ystyried holl swyddogaethau OFCOM yng Nghymru | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aros i weld papur opsiynau gan Swyddogion Llywodraeth y DU ar systemau ymgynghori.<br><br>Mae'r Mesur Cyfathrebu'n darparu ar gyfer sefydlu panelau a phwyllgorau o'r Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr. |
| Cyfrifoldeb cyffredinol ar OFCOM i ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a rhwymedigaeth benodol ar OFCOM i roi ystyriaeth briodol i'r sylwadau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu cyflwyno iddi | Yr un yw safbwynt Llywodraeth y DU ar hyn o hyd, sef mai mater i OFCOM fydd penderfynu ar y systemau gorau ar gyfer sicrhau bod safbwyntiau'r cyrff datganoledig yn cael eu hystyried. Roedd Llywodraeth y DU yn rhagweld y byddai'r ddwy ochr yn cytuno ar hyn drwy gyfrwng Memorandwm Dealltwriaeth. |
| Rhwymedigaeth benodol, yn hytrach na disgwyliad, y bydd OFCOM yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd mewn gwahanol rannau o'r DU | Mae'r Cyd-bwyllgor ar y Mesur Cyfathrebu Drafft a Llywodraeth y DU yn cytuno mai mater i Fwrdd OFCOM fydd penderfynu ar y ffordd orau o gynnwys y cyhoedd yn ei waith. Mae Cadeirydd OFCOM eisoes wedi addo awgrymu i'w fwrdd y dylent gwrdd yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| Yn croesawu'r ffaith bod y Mesur yn dweud bod OFCOM yn disgwyl casglu barn pobl yng nghenhedloedd y DU ond nid oedd yn glir o'r mesur drafft a fyddai'r ymchwil hon yn cael ei chynnal ar sail cenhedloedd unigol. | Mae Cadeirydd OFCOM wedi sicrhau Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd ymchwil ar sail cenhedloedd unigol yn sylfaenol i waith OFCOM. |
| Rhwymedigaeth benodol, yn hytrach na disgwyliad, y bydd OFCOM yn sefydlu swyddfeydd ym mhob cenedl. | Mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer hyn yn y Mesur ac maent wedi addo annog OFCOM i adrodd ar ei weithgareddau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ei adroddiad blynyddol. |

**Atodiad B - Materion sy'n ymwneud â rhaglenni rhanbarthol a chynhyrchu rhanbarthol yn y Mesur**

**Materion a godwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**

- Yn ei ymateb i'r Mesur drafft, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod rhaglenni rhanbarthol a chynhyrchu rhanbarthol yn hanfodol bwysig. Mae'r Mesur Cyfathrebu yn darparu ar gyfer rhaglenni rhanbarthol ar Sianel 3 (Cymal 194), ac ar gyfer cynhyrchu rhanbarthol ar Sianel 3 (Cymal 193) a Sianel 4 (Cymal 195). Mae cytundeb y BBC yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i’r rhanbarthau.
- Roedd y Cynulliad yn croesawu amcanion Siarter ITV ar gyfer Darlledu yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau ac anogodd OFCOM i gymryd pob cam posibl i sicrhau y cytunir ar gwotâu sylweddol, manwl a phenodol gyda darlledwyr ar raglenni rhanbarthol a chynhyrchu rhanbarthol o ran nifer yr oriau, y gyfran, a’r buddsoddiad ynddynt.
- Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd am greu cyfrifoldebau a phwerau i warchod safonau a phrif nodweddion darlledu yn y DU er mwyn gwrthbwyso'r llacio ar y cyfyngiadau ar berchnogaeth yn y maes.
- Anogodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Lywodraeth y DU i sicrhau na fyddai'r system 'dim hawl adnewyddu' ar gyfer sianelau 3 a 5 ar ôl 2014 yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd darlledu yng Nghymru. Roedd manteision i broses benodol o ddyrannu trwyddedau ar gyfer y blynyddoedd ar ôl 2014, gan gynnwys diogelu cymeriad rhanbarthol trwyddedau ITV. Roedd perygl, fodd bynnag, y byddai cwmnïau'n llai parod i fuddsoddi yn y blynyddoedd cyn hynny.

<u>Darpariaeth yn y Mesur</u>

Mae nifer o gymalau yn y Mesur Cyfathrebu yn cyfeirio at Gynhyrchu Rhaglenni a Rhaglenni Rhanbarthol ac maent yn cyfeirio, yn gryno, at gwotâu ar gyfer cyfran ac amrediad rhaglenni Sianel 3 a Sianel 4 a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig oddi allan i ardal yr M25, a buddsoddi ynddynt. Mae'r mesur hefyd yn nodi y bydd y drefn reoleiddio ar gyfer holl wasanaethau rhanbarthol Sianel 3 yn cynnwys yr amodau bod

OFCOM yn clustnodi digon o amser, ar adegau gwylio priodol, ar gyfer dangos amrywiaeth briodol o raglenni sydd o ddiddordeb arbennig i'r bobl sy'n byw yn yr ardal berthnasol, a'u bod o safon uchel.

<u>Adolygiad o’r Farchnad Darparu Rhaglenni ym maes Darlledu ym Mhrydain</u>

Ym mis Awst 2002, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, Darlledu a Chwaraeon, am adolygiad o'r Farchnad Darparu Rhaglenni ym maes Darlledu ym Mhrydain, er mwyn edrych ar y pryderon y gwnaeth y Cyd-bwyllgor ar y Mesur Cyfathrebu drafft, y diwydiant a chyrff eraill eu codi. Byddai hefyd yn cynnig sylfaen ar gyfer penderfyniadau seneddol cysylltiedig. Yng nghyd-destun gorolwg economaidd o'r farchnad gynhyrchu yn y DU, fe dynnodd sylw at faterion hanfodol ar gyfer y dyfodol ac, yn arbennig, effeithiolrwydd y cwota cynhyrchu annibynnol, effaith debygol y newidiadau i'r rheolau ar berchnogaeth sydd ar y gweill, a dulliau o feithrin sylfaen gynhyrchu gref yn y DU.

Ar ddydd Mercher 15 Ionawr 2003, fe wnaeth Llywodraeth y DU gydnabod pwysigrwydd cwmnïau cynhyrchu annibynnol i raglenni a chynhyrchu rhanbarthol, a’r diwydiant darlledu yn gyffredinol, drwy dderbyn pob un ond dau o argymhellion yr adolygiad o'r Farchnad Darparu Rhaglenni ym maes Darlledu ym Mhrydain. Caiff y rhain eu gweithredu, lle maent yn briodol, fel diwygiadau i'r Mesur Cyfathrebu sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Maent yn cynnwys:

- cyflwyno codau ymddygiad rhwymol ar gyfer perthynas darlledwyr â chwmnïau cynhyrchu annibynnol. Bydd hyn yn berthnasol i Sianel 3, Sianel 4, Sianel 5 ac S4C, ac i'r BBC trwy ei Gytundeb â'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd y darlledwyr yn llunio'r codau yng ngoleuni canllawiau a gyhoeddir gan OFCOM, a bydd yn rhaid i OFCOM eu cymeradwyo. Eu nod fydd sicrhau bod y telerau masnachu rhwng darlledwyr a chynhyrchwyr annibynnol yn deg ac yn meithrin diwydiant cynhyrchu annibynnol sy'n gryf yn economaidd. Bydd OFCOM yn gallu defnyddio'r amrediad arferol o sancsiynau, gan gynnwys dirwyon, os na fydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r codau.
- rhoi'r grym i OFCOM fesur cwota'r cynyrchiadau annibynnol a ddefnyddir gan ddarlledwyr yn ôl gwerth yn ogystal ag yn ôl swm, os bydd angen;
- gweithredu gwahanol gwotâu ar gyfer BBC One a BBC Two;
- rhoi'r grym i OFCOM orfodi darlledwyr i wneud iawn am unrhyw ddiffyg o ran cwrdd â'r cwota mewn blynyddoedd dilynol;
- ei gwneud yn ofynnol i OFCM ystyried a gyrhaeddwyd y cwota fel rhan o'r arolwg ffeithiol ac ystadegol y bydd gofyn iddi ei gyhoeddi;
- ei gwneud yn ofynnol i OFCOM ystyried yr effaith ar gynyrchiadau rhanbarthol, cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni newyddion a materion cyfoes os bydd trwydded Sianel 3 yn newid dwylo. O dan y drafft cyfredol o'r Mesur dim ond yr effaith ar raglenni rhanbarthol y bydd yn rhaid iddi ei hystyried;
- cyflwyno dyletswydd tebyg ar OFCOM i adolygu'r effaith ar gynyrchiadau rhanbarthol, cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni newyddion a materion cyfoes os bydd trwydded Sianel 5 yn newid dwylo;
- cyflwyno targedau newydd ar gyfer cynhyrchu rhanbarthol a buddsoddi rhanbarthol ar gyfer Sianel 5; a tharged buddsoddi rhanbarthol newydd ar gyfer Sianel 4, yn ychwanegol at ei darged cynhyrchu rhanbarthol presennol.

Cyhoeddodd Tessa Jowell na fyddai'n derbyn dau o argymhellion yr adroddiad:

- y dylai OFCOM gael yr hawl i amrywio amodau trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 o ran lefel y

cynyrchiadau gwreiddiol - mae'r grym hwn yn bodoli eisoes o dan y drafft cyfredol o'r Mesur;
- y dylai OFCOM gael yr hawl i osod targedau buddsoddi ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol – o dan y drafft cyfredol, mae amryw o gwotâu yn eu lle eisoes ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol a rhanbarthol a'r rhaniad rhwng rhaglenni oriau brig a'r rheini nad ydynt yn rhaglenni oriau brig.

Siarter ITV ar gyfer Darlledu yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau

Mae'r gwelliant uchod yn adeiladu ar themâu Siarter ITV ar gyfer Darlledu yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau. Fel rhan o waith yr ITC ar symleiddio'r broses o reoleiddio rhaglenni, gwahoddwyd ITV i ystyried dulliau newydd o ymdrin â'r agwedd hon ar ei chyfrifoldeb cyhoeddus er mwyn paratoi ar gyfer y Mesur Cyfathrebu drafft a gyhoeddwyd ar Mai 7. Lansiwyd Siarter ITV ar gyfer Darlledu yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau ym mis Mai 2002. Ei nod oedd gwarantu dyfodol cynaliadwy i raglenni rhanbarthol ITV ac mae'r Comisiwn Teledu Annibynnol (ITC) wedi'i chymeradwyo. Roedd y Siarter yn moderneiddio ymrwymiadau rhanbarthol ITV i warantu buddsoddi oddi allan i Lundain, yn gwella'r sefyllfa o ran amserlennu rhaglenni ac yn cryfhau atebolrwydd lleol. Ei nod oedd diogelu ansawdd a hygyrchedd rhaglenni rhanbarthol i'r dyfodol.

Am y tro cyntaf, cytunodd ITV y byddai'n cwrdd â thargedau blynyddol ar gyfer buddsoddi mewn cynhyrchu y tu allan i Lundain, mewn ymateb i'r Mesur Cyfathrebu. Roedd hyn yn hanfodol bwysig er mwyn cynnal cynhyrchu rhanbarthol wrth i berchnogaeth ITV newid neu wrth i'r gwahanol gwmnïau uno. Y targed sylfaenol yw 50 o'r gwariant ar raglenni gwreiddiol. Roedd y diwygiadau'n sicrhau y byddai'r darlledwr yn canolbwyntio ar werthoedd rhanbarthol craidd: newyddion a materion cyfoes; amrywiaeth ar gyfer anghenion a diddordebau lleol; cynnig dewis unigryw a chynhwysfawr ar wahân i'r BBC.

Dywed y Siarter:

- Bydd cwmnïau ITV yn rhoi ymrwymiad llwyr a pharhaus i gynhyrchu rhaglenni yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, nid yn unig fel rhan o'u gwasanaethau lleol ond hefyd fel rhan o ddarpariaeth rhwydwaith gyfoethog ac amrywiol ITV.
- Er mwyn tanlinellu'r ymrwymiad hwn, mae ITV yn ymrwymo y bydd dros 50% o'i holl fuddsoddiad mewn rhaglenni gwreiddiol a gomisiynir (rhwydwaith a rhanbarthol) yn ariannu cynyrchiadau gan ITV a chynhyrchwyr annibynnol a wnaed yn gyfangwbl neu i raddau helaeth oddi allan i Lundain. Mewn gwirionedd, gobaith ITV yw y bydd yn cyflawni mwy na'i ymrwymiad sylfaenol. Yn 2002, rhagwelir y bydd tua 55% wedi'i wario y tu allan i Lundain.
- Bydd o leiaf 90 y cant o raglenni rhanbarthol penodedig ITV yn cael eu cynhyrchu yn y rhanbarthau y'u comisiynwyd ar eu cyfer. Bydd o leiaf 90 y cant o raglenni rhanbarthol HTV yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, a'r un yw'r targed ar gyfer Scottish a Grampian yn yr Alban, a UTV yng Ngogledd Iwerddon.
- Caiff atebolrwydd rhanbarthol ei gryfhau. Bydd cwmnïau ITV yn ymrwymo i benodi dau gyfarwyddwr anweithredol i fyrddau cwmnïau rhanbarthol a sefydlu grwpiau cynghori rhanbarthol. Bydd cyfarwyddwr anweithredol lleol yn cadeirio pob grwp. Mae hyn yn ychwanegol at yr ymrwymiadau cyfredol i gadw rheolwr-gyfarwyddwyr lleol y trwyddedau ITV rhanbarthol a bydd yn ymledu arferion atebolrwydd da i holl fyrddau'r dalwyr trwyddedau.

- Un o brif nodweddion y Siarter yw'r newid pwyslais yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau o oriau

darlledu i lefelau buddsoddiad a fydd yn denu ac yn meithrin talent ac yn cynnig gwasanaeth o ansawdd gwell i wylwyr. Yn y gorffennol, darlledwyd oriau o raglenni a gynhyrchwyd ar gyllideb fechan mewn slotiau hwyr neu ar amseroedd lle mae nifer y gwylwyr yn isel. Mae anawsterau o ran cydlynu dangos rhaglenni rhanbarthol mewn gwahanol ranbarthau wedi gwanhau'r amserlenni.
- Fel rhan o'r cytundeb, caiff rhaglenni rhanbarthol eu dangos ar amseroedd amlwg yn amserlen ITV - ar oriau brig neu oriau sy'n agos at yr oriau brig. Caiff cyfran uchel o'r arian a arbedir ar raglenni ar ymylon yr amserlen ei fuddsoddi yn y rhaglenni rhanbarthol a ddangosir yn yr oriau brig, ac ar gomisiynu rhaglenni eraill a gynhyrchir oddi allan i Lundain.
- Ceir tair lefel o ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer cwmnïau ITV; Cenhedloedd (10/12 awr), Rhanbarthau Lloegr (8.5 awr); rhanbarthau llai (5-7 awr). Nid yw'r lefel ofynnol hon yn cynnwys ailddarllediadau. Bydd cynyrchiadau gan gynhyrchwyr annibynnol yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r amserlenni rhanbarthol a dylent fod ar eu hennill gan y bydd mwy o gyfle iddynt ymgeisio am gomisiynau rhwydwaith oddi allan i Lundain.
- Yn ogystal â newyddion, bydd pob un o gwmnïau ITV yn darparu materion cyfoes ac amrywiaeth o raglenni eraill i gwrdd ag anghenion a diddordebau gwylwyr. Gall hyn gynnwys drama, adloniant, gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon, rhaglenni dogfen, crefydd a'r celfyddydau.

<u>Hawl i Adnewyddu Trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5</u>

Mae’r Mesur Cyfathrebu yn datgan yn awr fod yna rhagdybiaeth y caiff trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 eu hadnewyddu ar ôl 2014 oni bai fod OFCOM yn penderfynu peidio adnewyddu oherwydd y rhesymau canlynol neu os yw’r Ysgrifennydd Gwladol wedi defnyddio ei pher i atal adnewyddiad. Gall OFCOM benderfynu i beidio adnewyddu y drwydded os nad ydynt yn fodlon bod yr ymgeisydd (os adnewyddir ei drwydded) am ddarparu gwasanaeth fydd yn cydymffurfio gyda’r gofynion sy’n berthnasol i:

a. gylch gorchwyl y gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y gwasanaeth trwyddedig;
b. cwotâu rhaglenni;
c. rhaglenni newyddion a materion cyfoes; ac

ch) cynhyrchu rhaglenni a rhaglenni lleol.

Gall OFCOM hefyd benderfynu i beidio adnewyddu y drwydded os ydynt yn bwriadu cynnig trwydded newydd i wasanaeth sy’n cymryd lle y gwasanaeth trwyddedig a fyddai’n wahanol i’r gwasanaeth trwyddedig o ran (a) yr ardal y byddai’n cael ei ddarparu ar ei chyfer; neu (b) amseroedd yn y dydd, dyddiau yn ystod yr wythnos, rhwng neu phryd y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.